**DRAFFT**

# Cofnodion Cangen y Senedd
# Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol
# 4 Mawrth 2026

**<u>Croeso</u>**

Croesawodd y Cadeirydd y rheini a oedd yn bresennol, ac agorodd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

**1. Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol diwethaf a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr 2024.**

Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir.

**2. Materion sy'n codi**

Nid chododd unrhyw fater.

**3. Unrhyw faterion brys**

Nid oedd unrhyw faterion brys i'w trafod.

**4. Adroddiad gan Gadeirydd Cangen y Senedd, Rhun ap Iorwerth AS**

Nododd y Cadeirydd y bu'n amser prysur a chynhyrchiol i'r Gangen. Tynnodd sylw at rai gweithgareddau nodedig dros y cyfnod adrodd hwn, gan gynnwys y canlynol:

**BIMR Senedd Cymru**

Nodwyd mai uchafbwynt y cyfnod hwn, heb os, oedd Cynhadledd BIMR 2025. Dros dri diwrnod arbennig ym mis Mehefin, croesawyd dros 50 o Seneddwyr o ranbarthau Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad, ynghyd ag arsylwyr rhyngwladol, i Ynysoedd Prydain ar gyfer Cynhadledd Ranbarthol Ynysoedd Prydain a Môr y Canoldir. Un o ganlyniadau nodedig y gynhadledd oedd lansio Rhwydwaith LHDT+ Ynysoedd Prydain a Môr y Canoldir yn y Senedd; y tro cyntaf i unrhyw un o naw rhanbarth Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad wneud hynny.

Bu'r gynhadledd yn llwyddiant ysgubol ac roedd pawb yn gytûn y bu'n llwyfan arbennig ar gyfer ein Senedd a Chymru ar eu gorau.

**Seneddwyr Benywaidd y Gymanwlad**

Cynrychiolwyd Cangen Cymru gan Rhianon Passmore AS, Natasha Asghar AS a Sioned Williams AS yng Nghynadleddau'r Menywod yn yr Alban yn 2025 ac, yn ddiweddar, gan Rhianon Passmore AS a Sioned Williams AS yng Ngogledd Iwerddon.

Cafodd Sioned Williams AS ei dewis hefyd i fynd i weithdy Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad ar "Seneddwyr fel ysgogwyr i rymuso menywod yn economaidd" yn y Bahamas.

**Seneddwyr y Gymanwlad ag Anableddau**

Nododd y Cadeirydd ddiolch y Gangen i Mark Isherwood AS am ei gyfraniad parhaus fel Hyrwyddwr y Senedd dros Seneddwyr ag Anableddau, gan gynnwys ychydig wythnosau yn ôl yn Fforwm cyntaf Seneddwyr y Gymanwlad ag Anableddau yn ein Rhanbarth, a gynhaliwyd gan Senedd yr Alban.

**Seneddwyr LHDT+**

Yn dilyn lansiad Rhwydwaith LHDT+ ein Rhanbarth yn y Senedd, bu Adam Price AS a Hannah Blythyn AS yn weithgar ar bwyllgor llywio'r rhwydwaith. Da oedd gweld fforwm cyntaf wyneb yn wyneb yn cael ei gynnal yn San Steffan yn ddiweddar.

**Cenadaethau Arsylwi Etholiadau**

Roedd hi'n gyfnod cadarnhaol i'r Gangen o ran arsylwi etholiadau, gydag Alun Davies AS yn rhan o genhadaeth i ynysoedd y Cayman ac wedyn yn

cael ei ddewis i arwain dirprwyaeth arsylwi etholiadau ynysoedd y Falklands.

Nodwyd hefyd y cynadleddau eraill hyn gan y Cadeirydd.

Cynrychiolodd Natasha Asghar AS ac Alun Davies AS y Gangen yng nghynhadledd fawr flynyddol Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad yn Barbados y llynedd.

Yn dilyn gwahoddiad i'r Gangen fynd i gynhadledd ranbarthol Canada y llynedd, gwnaeth y Dirprwy Lywydd, David Rees AS, gynrychioli'r Senedd yn y rhaglen hon, a gynhaliwyd gan Senedd Quebec.

Roedd deallusrwydd artiffisial yn bwnc nodedig yng ngwaith Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad, ac roeddem yn falch o gael y cyfle i fynd i gynhadledd y llynedd ym Malaysia ar ddeallusrwydd artiffisial cyfrifol, lle y bu Hannah Blythyn AS ac Adam Price AS yn ein cynrychioli.

## 5. Cadarnhad o gyfansoddiad diwygiedig y Gangen

Cytunwyd ar ddiweddariad o reolau'r Gangen.

Nododd y Cadeirydd mai mân newidiadau oedd y rhain, yn adlewyrchu'r ffordd y mae Cangen y Senedd o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad bellach yn gweithredu. Byddent yn cryfhau llywodraethant ein gwaith ymhellach, ac yn ehangu cyfleon i'n Haelodau – mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer y Seithfed Senedd, cynnydd sylweddol o Aelodau a thymor seneddol byrrach.

**Cloi**

Wrth gloi'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, fe ddiolchodd y Cadeirydd i bob un o'r Aelodau oedd wedi ymddiddori yng ngwaith Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad, a chymryd rhan yn y gwaith, dros y flwyddyn ddiwethaf, a dros y degawd diwethaf tra y bu ef yn cadeirio'r Gangen. Diolchodd y Cadeirydd i ysgrifenyddiaeth y Gangen, a dymunodd yn dda i Gadeirydd ac aelodaeth nesaf pwyllgor gweithredol ein Cangen ar gyfer yr hyn a fydd yn gyfnod cyffrous arall i ni fel Senedd.

**6. Yn bresennol:**

**Aelodau Cangen y Senedd**

1 Rhun ap Iorwerth AS (Cadeirydd y Gangen)
2. Y Dirprwy Lywydd David Rees AS (Is-lywydd y Gangen)
3. Natasha Asghar AS (Pwyllgor Gwaith y Gangen)
4. Hannah Blythyn AS
5. Adam Price AS
6. Janet Finch-Saunders AS
7. Cefin Campbell AS
8. Luke Fletcher AS
9. Mike Hedges AS
10. Rhianon Passmore AS (Pwyllgor Gwaith y Gangen)

**Ysgrifenyddiaeth y Gangen:**
Manon Antoniazzi, Ysgrifennydd y Gangen, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd
Al Davies, Ysgrifennydd Dros Dro y Gangen

<u>Arsylwi</u>
Gwion Evans, Swyddfa Breifat y Llywydd
James Whittaker, Swyddfa Breifat y Llywydd.

**Ysgrifenyddiaeth Cangen y Senedd o**
**Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad.**
**Mawrth 2026**